Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd • Y Deml Heddwch • Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3AP
www.wcia.org.uk/cewc • *Ffôn* 029 2022 8549 • *Ffacs* 029 2064 0333 • *E-bost* cewc@wcia.org.uk

CYNADLEDDAU MODEL Y CENHEDLOEDD UNEDIG

Pecyn gwybodaeth i ddisgyblion a myfyrwyr gan CEWC

CYNNWYS

1. Cyflwyniad
2. Y Cenhedloedd Unedig: y Cefndir
3. Trefn y diwrnod
4. Paratoi ar gyfer y diwrnod
5. Sut i ysgrifennu Datganiad o Safbwynt
6. Llunio penderfyniad
7. Enghreifftiau o benderfyniadau
8. Y Wasg Ryngwladol ac Ysgrifenyddiaeth y CU
9. Dysgu trwy gynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig
10. Cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig: Cwestiynau Cyffredin
11. Geirfa

Atodiadau:
   i. Gwefannau defnyddiol

Mae papurau briffio ar eich gwlad a'r mater(ion) i'w trafod i'w gweld, heb eu rhifo, gyda'r atodiadau eraill.

1. CYFLWYNIAD

Diolch i chi am gymryd rhan yn un o gynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig CEWC. Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau eich diwrnod yn trafod materion byd. Cynlluniwyd y wybodaeth sydd yn y pecyn hwn i'ch helpu i baratoi mor drylwyr â phosibl ar gyfer gweithgareddau'r diwrnod.

Mae ein cynadleddau'n cynnig efelychiad cyffrous o weithdrefnau'r Cenhedloedd Unedig, cyfundrefn ryngwladol amlycaf y byd. Byddwch yn gweithio mewn dirprwyaethau (timau) o dri, gan gynrychioli unrhyw un o blith 193 aelod-wladwriaeth y CU, gwledydd sydd yn wylwyr y Wasg Ryngwladol, Ysgrifenyddiaeth y CU neu gyrff anllywodraethol, a thrafod materion go iawn o bwys gwirioneddol. Yn y pecyn hwn fe welwch fanylion ynglŷn â'r holl swyddogaethau hyn.

Nid digwyddiadau ar gyfer siaradwyr cyhoeddus a dadleuwyr yn unig mo cynadleddau Model y CU. Mae trafod a chyfaddawdu hefyd yn elfennau hanfodol pwysig yng ngwaith y dydd, felly mae galw mawr hefyd am ddisgyblion a myfyrwyr sy'n medru cytgordio safbwyntiau eu gwledydd gyda rhai gwledydd eraill.

Rydym yn argymell eich bod chi'n darllen holl gynnwys y pecyn hwn cyn i chi ddechrau ar eich gwaith ymchwil, fel y gallwch weld beth sydd angen ei wneud. Po fwyaf o waith paratoi penodol a wnewch chi, mwya'n byd y gwnewch chi elwa ar weithgareddau'r diwrnod. Pob hwyl ar y gwaith!

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi ar y diwrnod.

Carai CEWC ddiolch i Gymdeithas y Cenhedloedd Unedig DU (UNA-UK) am ei chymorth wrth ddarparu gwybodaeth ar gyfer y pecyn hwn. Mae UNA-UK yn cefnogi sefydlu cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig ar draws y DU. Am ragor o wybodaeth, ewch i ***www.una.org.uk/mun****.*

2. Y CENHEDLOEDD UNEDIG: Y CEFNDIR

Mae'r rhagymadrodd i Siarter y Cenhedloedd Unedig yn datgan ei nodau yn glir:

Yr ydym ni, bobloedd y Cenhedloedd Unedig,

yn benderfynol o

achub y naill genhedlaeth ar ôl y llall rhag pla rhyfel, sydd ddwywaith yn ystod ein hoes ni wedi dod â galar anhraethol i'r ddynolryw, ac

ailddatgan ffydd mewn hawliau dynol sylfaenol, yn urddas a gwerth y person dynol, yn hawliau cyfartal dynion a menywod, a chenhedloedd mawr a mân, a

chreu amodau lle gellir cynnal cyfiawnder a pharch at y dyletswyddau sy'n deillio o gytundebau a ffynonellau eraill cyfraith ryngwladol, a

hyrwyddo cynnydd cymdeithasol a gwell safonau byw mewn rhyddid ehangach,

ac i'r dibenion hyn

o arfer goddefgarwch a chydfyw mewn heddwch gyda'n gilydd fel cymdogion da, a

chyfuno ein cryfder er mwyn cynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol, a

sicrhau, drwy dderbyn egwyddorion a sefydlu dulliau, na ddefnyddir grym arfog ac eithrio er mwyn y lles cyffredin, a

defnyddio peirianwaith rhyngwladol er mwyn hyrwyddo cynnydd economaidd a chymdeithasol yr holl bobloedd,

wedi penderfynu cyfuno ein hymdrechion i gyflawni'r amcanion hyn.

Gan hynny, y mae ein gwahanol Lywodraethau, drwy gynrychiolwyd… wedi cytuno ar Siarter bresennol y Cenhedloedd Unedig ac y meant drwy hyn yn sefydlu corff rhyngwladol a adweinir fel y ***Cenhedloedd Unedig****.*

Datblygodd y CU yn aruthrol ers ei ddechrau ym 1945, pan arwyddodd 51 gwlad y Siarter. Bellach mae yna 192 aelod o'r Cynulliad Cyffredinol (ymunodd Montenegro ym mis Mehefin 2006) sydd yn cyfarfod i drafod materion o bwys byd-eang.

Mae'r CU yn ceisio:

- Cynnal heddwch a diogelwch ar draws y byd
- Hyrwyddo hawliau a rhyddid dynol sylfaenol; brwydro yn erbyn tlodi, newyn, clefydau ac anllythrennedd; ac annog parch gan bobl at ei gilydd
- Datblygu perthynas gymdogol ymhlith cenhedloedd ar sail delfrydau o gydraddoldeb a hunanlywodraeth
- Rhoi modd i genhedloedd wireddu'r amcanion hynny

I gyflawni'r amcanion hynny, mae gofyn i'r CU a'r holl wledydd sy'n aelodau gynnal pum egwyddor sylfaenol:

- Mae'r holl wledydd sy'n aelodau yn sofran ac yn gydradd
- Rhaid datrys pob anghydfod trwy ddulliau heddychlon a heb beryglu heddwch rhyngwladol
- Ni chaiff gwledydd sy'n aelodau o'r CU ddefnyddio grym na bygwth gwneud hynny
- Ni chaiff y CU ymyrryd â'r hyn sy'n digwydd mewn gwlad sy'n aelod o'r CU oni chaiff wahoddiad i wneud gan y wlad honno
- Dylai aelod-wladwriaethau geisio cynorthwyo'r CU pan fo'n gweithredu yn ôl yr hyn a ganiateir gan Siarter y CU

Rhaid i wledydd sy'n aelodau o'r CU **arwyddo'r Siarter,** gan gytuno y byddant yn cynnal egwyddorion y CU. **Rhaid iddynt hefyd gyfrannu'n ariannol** i gostau rhedeg y CU, yn ôl ffi a gyfrifir ar sail poblogaeth a chynnyrch mewnwladol crynswth (GDP) y wlad. Os bydd gwlad yn hwyr gyda'i thaliadau mae modd iddi golli ei phleidlais yn y Cynulliad Cyffredinol (gweler isod). Mae ambell i wlad yn gwrthod talu am resymau gwleidyddol, neu yn ceisio dwyn perswâd ar y CU i weithredu yn ôl ei dymuniad. Gall hyn beri anawsterau i'r CU wrth iddo geisio cyflawni ei amcanion.

Y Cynulliad Cyffredinol

Y Cynulliad Cyffredinol yw corff canolog y CU. Mae ei gyfarfodydd yn agored i bob un o'r 193 o aelod-wladwriaethau. Os dangosir bod gwlad wedi torri Siarter y CU gall gael ei diarddel o'r Cynulliad Cyffredinol. Er nad yw hyn erioed wedi digwydd, ataliodd De Affrica ei haelodaeth ei hun yn ystod cyfnod apartheid.

Bydd pob gwlad yn anfon mwy nag un cynrychiolydd i gyfarfodydd y Cynulliad Cyffredinol, oherwydd yn aml rhennir trafodaethau yn **grwpiau pwyllgor**. Gall y drefn hon fod yn anodd i wledydd llai datblygedig. Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn caiff pob gwlad amlinellu'r maes llafur sy'n briodol i'r CU, yn ei barn hi, am y flwyddyn honno. **Mae gan bob gwlad un bleidlais**, ac nid yw'n dibynnu ar faint ei phoblogaeth na'i chyfoeth. Fel arfer bydd mwyafrif syml yn pennu canlyniad y bleidlais, er y bydd rhai materion yn galw am fwyafrif o ddwy ran o dair.

Mae gan y Cynulliad Cyffredinol bwerau i:

- Drafod ac argymell ar unrhyw bwnc ym maes heddwch a diogelwch byd (ar wahân i'r rheiny sydd eisoes yn cael eu trafod gan y Cyngor Diogelwch – gweler isod)
- Trafod diarfogi (sut i gyfyngu ar gynhyrchu a dosbarthu arfau)
- Trafod ffyrdd i sicrhau y caiff menywod a phlant eu trin yn gydradd ac arfer eu hawliau dynol
- Trafod datblygu cynaliadwy (e.e. sut y gall gwledydd ddatblygu eu heconomïau heb niweidio'r amgylchedd neu fynd i ddyled)
- Cynnig argymhellion ynglŷn â gwella cyfreithiau rhyngwladol ar hawliau dynol, ac annog gwledydd i gydweithio i wella iechyd, addysg a materion eraill
- Penderfynu faint o arian y caiff y CU ei wario a faint y dylai pob gwlad gyfrannu
- Ethol gwledydd i eistedd ar gyrff eraill o fewn y CU, fel y Cyngor Diogelwch

Datblygir **Penderfyniadau** (cynlluniau gweithredu) gan bwyllgorau, sy'n amcanu cynhyrchu rhywbeth a dderbynnir trwy **gydsyniad** (cytundeb cyffredinol). Cyflwynir y Penderfyniadau wedyn i'r Cynulliad Cyffredinol, a bydd pob gwlad yn pleidleisio "O blaid", "Yn erbyn" neu "Ymatal". Mae modd defnyddio pleidlais Ymatal i fynegi niwtraliaeth neu ryw elfen o anghymeradwyaeth, ac i bob pwrpas mae'n cyfrif fel pleidlais Yn Erbyn.

Dim ond **argymhellion** yw'r penderfyniadau a dderbynnir gan y Cynulliad Cyffredinol. Nid oes unrhyw fodd i orfodi gwledydd i weithredu ar sail yr argymhellion hyn; yn hytrach, ymddiriedaeth ac ymdeimlad o ddyletswydd wrth gydymffurfio â dymuniadau'r gymuned ryngwladol yw sail y penderfyniadau. Mae'r penderfyniadau yn dangos barn gyffredinol gwledydd y byd ac felly yn sail i gynllun gwaith Ysgrifenyddiaeth (staff) y CU.

Y Cyngor Diogelwch

Y Cyngor Diogelwch sy'n gyfrifol am ddiogelu heddwch rhwng gwledydd. Mae'n ymdrin â bygythiadau yn erbyn **"heddwch a diogelwch rhyngwladol"**. Dyma adran fwyaf pwerus y CU, a'r unig gorff sydd â'r pŵer i fynnu y gweithredir ar ei benderfyniadau. Yn hytrach na chynnal cyfarfodydd rheolaidd, gall unrhyw wlad alw ar y Cyngor Diogelwch i ymgynnull ar adeg argyfwng.

Mae'r Cyngor Diogelwch yn amcanu

- Ymchwilio i achosion o anghydfod neu unrhyw sefyllfa a allai arwain at wrthdaro rhwng gwledydd
- Argymell dulliau ac amodau cytundeb i ddatrys anghydfod neu wrthdaro
- Argymell camau i'w cymryd pan fo gwlad yn ymddwyn mewn ffordd beryglus
- Argymell enwau'r gwledydd y dylid eu penodi i'r Cyngor Diogelwch i'r Cynulliad Cyffredinol

Un broblem fawr sy'n wynebu'r Cyngor Diogelwch heddiw yw bod llawer achos o wrthdaro arfog yn digwydd *o fewn* gwledydd, ar ffurf rhyfeloedd cartref. Nid oes hawl gan y CU i ymyrryd mewn achosion o'r fath heb wahoddiad i wneud hynny gan y wlad dan sylw.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 15 gwlad:

- **5 aelod parhaol**: Tsieina, Ffrainc, Rwsia, y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau;
- **10 aelod etholedig**, sy'n gwasanaethu fesul tymor o ddwy flynedd. Dewisir y rhain gan grwpiau rhanbarthol a'u cadarnhau gan y Cynulliad Cyffredinol.

Mae **trefn bleidleisio'r** Cyngor Diogelwch yn wahanol i drefn y Cynulliad Cyffredinol. Mae angen i naw gwlad bleidleisio dros gynnig er mwyn i'r cynnig hwnnw gael ei dderbyn. Os bydd cyn lleied ag un o'r aelodau parhaol yn pleidleisio yn erbyn y cynnig, yna mae'n methu, hyd yn oed os yw pob un o'r 14 gwlad arall yn ei gefnogi. Gelwir hyn yn **feto**.

Pennwyd yr aelodaeth barhaol yn wreiddiol ar sail y ffaith mai dyma'r gwledydd a fu'n fuddugol yn yr Ail Ryfel Byd, a rhoddwyd y feto i rwystro unrhyw benderfyniad milwrol nad oeddent yn fodlon ei orfodi. Dyma hefyd yr unig bum gwlad sydd â'r hawl i feddu arfau niwclear o dan y Cytundeb ar Atal Amlhau Arfau Niwclear.

Mae strwythur presennol y Cyngor Diogelwch yn destun cryn ddadlau. Y farn gyffredin yw nad yw'r 5 aelod parhaol yn cynrychioli aelodaeth y Cenhedloedd Unedig yn ddaearyddol nac yn ariannol. Mae Siapan, India, Brasil a'r Almaen oll yn dymuno dod yn aelodau parhaol, a hefyd yn cefnogi sedd barhaol ar gyfer un o wledydd Affrica. Gellid dadlau hefyd bod sail yr aelodaeth barhaol a'r feto yn llai perthnasol nag y bu. Mae'r byd wedi newid llawer er 1945, a bellach mae gan wledydd eraill arfau niwclear. Byddai newid i strwythur y Cyngor Diogelwch yn galw am gefnogaeth dwy ran o dair o'r Cynulliad Cyffredinol.

Cyrff eraill y CU

Mae'r CU wedi creu llawer o gyrff eraill sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar faterion rhyngwladol. Efallai y byddwch am gyfeirio at waith un o'r cyrff hyn wrth annerch cynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig. Am restr lawn, a dolenni i wefan pob corff, ewch i **www.unsystem.org.**

Dyma rai o raglenni ac asiantaethau pwysicaf y CU:

Y Gyfundrefn Lafur Ryngwladol (ILO)
www.ilo.org Mae'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a hawliau llafur

Cronfa Blant y Cenhedloedd Unedig (UNICEF)
www.unicef.org Mae'n hyrwyddo hawliau plant ar draws y byd

Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygu (UNCTAD)
www.unctad.org Mae'n helpu gwledydd sy'n datblygu i ddod yn rhan o economi'r byd

Cenhedloedd Unedig Menywod
www.unwomen.org Mae'n gweithio tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau a grymuso merched

Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig (UNDP)
www.undp.org Rhwydwaith ar gyfer datblygu rhyngwladol, sy'n cydlynu ymdrechion i gyflawni Amcanion Datblygiad y Mileniwm y CU

Cyfundrefn Addysgol, Gymdeithasol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO)
www.unesco.org Mae'n cyfrannu at heddwch a chyd-ddealltwriaeth ryngwladol trwy gyfrwng addysg, gwyddoniaeth a diwylliant

Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR)
www.unhcr.org Mae'n diogelu ac yn cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar draws y byd

Cyfundrefn Iechyd y Byd (WHO)
www.who.int Ei nod yw sicrhau'r lefel iechyd orau bosibl i holl bobloedd y byd

Am wybodaeth fanylach ynglŷn â gwaith y CU a'i asiantaethau, ewch i **www.un.org.**

3. TREFN Y DIWRNOD

Bydd cynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys dau sesiwn (pob un yn delio â mater rhyngwladol gwahanol) neu un sesiwn estynedig (sy'n delio ag un mater yn fanylach). Mae'r canlynol yn rhaglen y gynhadledd nodweddiadol:

9.15am	Dirprwywyr i fod yn eu seddau
9.20am	Croeso
9.25am	Anerchiad y Llywydd
9.30am	Cyflwyniad i'r trefniadau
9.45am	Anerchiad Agoriadol
9.50am	Datganiadau o Safbwynt
10.25am	Cyflwyno penderfyniadau drafft
11.55am	Adroddiad y Wasg
12.00pm	Cinio
12.50pm	Anerchiad Agoriadol
12.55pm	Datganiadau o Safbwynt
1.35pm	Cyflwyno penderfyniadau drafft
2.50pm	Adroddiad y Wasg
2.55pm	Gwerthuso
3.00pm	Gorffen

Mae'r *Canllaw Cyfeirio Byr i Drefniadaeth* (tud. 9-10) yn rhoi syniad i chi o'r hyn y dylai pob person sydd yn cymryd rhan yn y gynhadledd fod yn ei wneud ar bob cam. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gall Llywydd y gynhadledd gyflwyno **sefyllfa frys** ar unrhyw adeg yn ddirybudd. Mae'n syniad da cadw llygad ar straeon cyfoes sydd yn y newyddion cyn y gynhadledd fel eich bod yn ymwybodol o faterion rhyngwladol arwyddocaol allai godi yn ystod y gweithgareddau.

Defnyddir dwy ystafell ym mhob cynhadledd:

- **Siambr y Cyngor** (fel rheol siambr ddadlau llywodraeth leol) a ddefnyddir ar gyfer yr Anerchiad Agoriadol, Datganiadau o Safbwynt, dadlau a phleidleisio;
- **Ystafell Bwyllgor** (ystafell lai, fel rheol ar gyfer 15-25 person) a ddefnyddir ar gyfer trafodaethau rhwng dirprwyaethau.

Ceisiwch rannu eich amser rhwng y ddwy ystafell yn ystod y gynhadledd fel eich bod yn cael dealltwriaeth lawnach o sut y mae trafodaethau rhyngwladol yn datblygu.

Dyma rai rheolau sylfaenol a fydd yn gymorth i hwyluso pethau yn ystod y dydd:

1. Cymrwch ran cymaint â phosibl. Bydd y gynhadledd yn llawer llai diddorol os nad yw rhai dirprwyaethau'n cymryd rhan!

2. Rhaid i un aelod o leiaf o bob dirprwyaeth aros yn y brif siambr trwy'r amser. Mae hyn yn cynnwys y Wasg Ryngwladol ac Ysgrifenyddiaeth y CU.

3. Dylid cynnal trafodaethau (hyd yn oed o fewn eich gwlad eich hun) yn yr Ystafell Bwyllgor. Yr unig bobl sydd yn cael siarad yn y brif siambr yw'r Llywydd, yr Is-lywydd ac unrhyw gynrychiolydd y mae'r Llywydd yn ei alw i siarad.

4. Bydd gan bob dirprwyaeth gerdyn gyda'u henwau arnynt a bydd gan bob gwlad faner. Defnyddiwch eich cerdyn enw i nodi fod eich dirprwyaeth eisiau siarad (trwy ei droi ar ei ben a'i adael felly hyd nes y byddwch wedi siarad) ac i bleidleisio (trwy ei godi).

5. Byddwch yn brydlon: mae hyn yn golygu cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod a dod yn ôl yn brydlon ar ôl cinio ac ar ôl unrhyw egwyl y mae'r Llywydd yn ei drefnu. Mae llawer i'w wneud yn ystod y dydd. Felly mae'n bwysig ein bod yn cadw at yr amserlen a baratowyd. Ymdrechwch i aros hyd at ddiwedd y gynhadledd, neu wnewch golli rhai pleidleisiau pwysig.

6. Eich cyfrifoldeb chi yw eich sbwriel. Mae cynghorau lleol yn garedig iawn yn gadael i ni ddefnyddio eu man gweithio ar gyfer y cynadleddau hyn, ac felly rhaid eu gadael yn lan. Bydd bagiau bin ar gael yn ystod amser cinio ac ar ddiwedd y dydd.

Beth sydd ei angen arnoch ar y diwrnod

1. **Eich nodiadau ymchwil.**
   - Mae'n bwysig bod eich nodiadau mewn trefn - efallai mewn plygell neu ffeil – gan fydd hyn yn eich helpu wrth i chi baratoi penderfyniadau neu ateb cwestiynau yn y siambr.
   - Os ydych wedi argraffu deunyddiau oddi ar y rhyngrwyd, neu wedi llungopïo deunyddiau o'r llyfrgell, dewch â nhw gyda chi. Gall fod yn ddefnyddiol cyfeirio at erthyglau o'r fath, yn ogystal ag at y *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'r Confensiwn y CU ar Hawliau 'r Plentyn* a ddarparwyd gan CEWC.
   - Ceisiwch feddwl am feirniadaeth y gall dirprwyaethau eraill eu gwneud am eich gwlad ac ysgrifennwch rhai ymatebion ar ffurf pwyntiau bwled.
   - Os oes dau bwnc i'w trafod yn ystod y dydd, mae'n syniad da trefnu'r rhain yn ddau grŵp, gyda set o nodiadau ar bob un o'r pynciau sydd i'w trafod.

2. **Datganiad o Safbwynt wedi'i baratoi ar y testun a drafodir.**
   Am ragor o wybodaeth, darllenwch *Sut i Ysgrifennu Datganiad o Safbwynt*.

3. **Pen a phapur**, yn cynnwys papur nodiadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a cheisiadau am drafodaethau i gynrychiolwyr eraill.

4. **Opsiynol: syniadau am welliannau i benderfyniadau neu benderfyniadau drafft amgen,** gall cael eu cyflwyno yn ystod y dydd. Am fwy o wybodaeth, gwelwch *Enghreifftiau o benderfyniadau*.

4. PARATOI AR GYFER Y DIWRNOD

Unwaith y byddwch yn gwybod pa wlad neu gorff mae eich dirprwyaeth yn ei gynrychioli a pha bwnc/bynciau sydd yn mynd i gael eu trafod, gallwch ddechrau ymchwilio. Dylai hyn syrthio i ddau faes allweddol:

1. **Eich gwlad neu eich corff**
2. **Y pwnc/pynciau**

Mae CEWC yn darparu gorolwg o bob pwnc sydd i'w drafod, yn ogystal â straeon diweddar yn y wasg yn berthynol i'r pwnc.

Os ydych yn cynrychioli'r Wasg Ryngwladol dylech er hynny ymchwilio i'r materion sydd i'w trafod. Byddai'n ddefnyddiol hefyd deall safonau y mae disgwyl i ohebwyr gydymffurfio â nhw: er enghraifft, gweler **www.spj.org/ethicscode.asp** ar gyfer cod moeseg Cymdeithas Gohebwyr Proffesiynol.

Os ydych yn cynrychioli Ysgrifenyddiaeth y CU nid oes angen i chi wneud eich ymchwil eich hun. Ond, efallai yr hoffech helpu cynrychiolwyr eraill gyda'u paratoadau.

Eich gwlad neu eich corff

a) Os ydych yn cynrychioli gwlad

Cyn i chi ystyried eich safbwynt ar y pynciau dan drafodaeth, gwnewch yn siŵr fod gennych ddealltwriaeth dda o'ch gwlad. Ystyriwch y materion canlynol:

- **Lleoliad**: ble rydych chi'n ddaearyddol? Pwy yw eich cymdogion?

- **Llywodraeth**: pa fath o lywodraeth sydd gennych (e.e. democratiaeth, unbennaeth milwrol)? Pa rolau sydd gan yr arweinydd a'r senedd? Pwy sy'n ethol y llywodraeth?
  Cofiwch: hyd yn oed os nad ydych yn cefnogi 'r ffurf hon o lywodraeth, dyna yw system eich gwlad a dylai eich penderfyniadau yn y gynhadledd adlewyrchu hynny.

- **Economi a masnach**: a oes gennych economi sefydlog? Ydych chi'n economi diwydiannol neu amaethyddol? Beth yw eich prif fewnforion ac allforion? Pa mor gyfoethog neu dlawd yw eich pobl? Pa mor effeithiol ydych chi'n masnachu gyda gwledydd eraill? Ydych chi mewn dyled i eraill?
  Mae hyn yn neilltuol o bwysig. Mae penderfyniadau sy 'n cael eu creu mewn cynadleddau Model CU weithiau yn cynnig eich bod yn rhoi arian ar gyfer rhywbeth neu yn newid eich ymarferion economaidd. Os yw hyn yn mynd i gael effaith fawr ar eich gwlad, rhaid i chi leisio barn!

- **Ethnigrwydd a chrefydd**: beth yw'r prif grwpiau ethnig a chrefyddol? A yw'r rhain yn effeithio sut y caiff eich gwlad ei llywodraethu a'r penderfyniadau a wna?

- **Cysylltiadau rhyngwladol**: sut mae eich gwlad yn gweithio gydag eraill? Pwy yw ei chyfeillion a'i gelynion? I ba gyrff rhyngwladol ydych chi'n perthyn? *Gweler Atodiad 2 (Ffynonellau gwybodaeth am y gwledydd) am y math hwn o wybodaeth.*

- **Hawliau dynol**: a oes gan eich gwlad hanes o anghyfiawnder o ran hawliau Dynol? A oes unrhyw grwpiau o bobl yn cael eu trin yn wahanol i eraill?

- **Hanes**: sut a phryd y cafodd eich gwlad ei ffurfio? A oes hanes o ryfel cartref? Ydych chi wedi ymyrryd o'r blaen ar faterion rhyngwladol?

- **Amgylchedd**: beth yw hinsawdd eich gwlad? Ydych chi'n wlad fynyddig neu yn wlad wastad? Faint o adnoddau naturiol y gallwch eu defnyddio?

b) Os ydych yn cynrychioli Corff Anllywodraethol (NGO)

Cyn i chi ystyried eich safbwynt ar y pynciau dan drafodaeth, gwnewch yn siŵr fod gennych ddealltwriaeth gyffredinol dda am eich corff. Ystyriwch y meysydd canlynol:

- **Cenhadaeth**: beth mae eich Corff Anllywodraethol yn ei wneud? Beth yw eich prif nodau?

- **Gwerthoedd**: beth yw safbwynt moesol eich Corff Anllywodraethol ar faterion? A oes rhai penderfyniadau posibl na allwch eu cefnogi, neu lywodraethau na allwch gydweithio â hwy?

- **Ffocws daearyddol**: y Cyrff Anllywodraethol mewn cynadleddau Model CU fydd y rhai gyda chyrhaeddiad byd-eang. Ond ar ba ardaloedd o'r byd yr ydych chi'n canolbwyntio'ch gwaith yn neilltuol arnynt?

- **Ymgyrchoedd**: mae nifer o Gyrff Anllywodraethol yn cynnal ymgyrchoedd byr dymor i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o rai materion, neu i annog llywodraethau i weithredu mewn maes penodol. Pa ymgyrchoedd sydd gennych ar y gweill ar hyn o bryd, a sut y gallai'r trafodaethau a fydd yn digwydd yn y Cynulliad Cyffredinol effeithio arnynt?

Y pynciau

Ymchwiliwch i'r pynciau sydd i'w trafod yn y gynhadledd mor fanwl ag y gallwch. Cyflwyniad sylfaenol yn unig i'r pynciau sydd yn y wybodaeth a roddir i chi gan CEWC. Dylech yn arbennig geisio sefydlu barn eich gwlad neu eich corff ar bob pwnc.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer ymchwilio:

- Darllenwch y pecyn *briffio* fel eich bod yn deall agweddau allweddol pob pwnc.
- Edrychwch ar y rhestr o *Wefannau Defnyddiol* i weld a oes rhai'n uniongyrchol berthnasol i'r pynciau.
- Chwiliwch am ffynonellau newyddion gan ddefnyddio'r rhestr yng yng nghefn y pecyn friffioac edrychwch beth yw agwedd asiantaethau'r cyfryngau yn eich gwlad ar y pwnc.
- Gofynnwch i athro/athrawes am eu gwybodaeth ar y pwnc. Er enghraifft, gall athrawon daearyddiaeth ddweud wrthych am faterion datblygu cynaliadwy a gall athrawon economeg esbonio sut mae masnach ryngwladol yn gweithio.

- Ceisiwch ddarganfod beth mae eich llywodraeth wedi'i wneud ynglŷn â'r pwnc. Gall Llysgenhadaeth neu Uwch Gomisiwn eich gwlad (gweler **www.fco.gov.uk**) neu Gonswl Mygedol yng Nghymru (manylion yn y *Ffynonellau gwybodaeth am y gwledydd)* fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth: peidiwch â bod ofn cysylltu â nhw trwy e-bost neu lythyr, gan esbonio'r hyn yr ydych yn ei wneud a gofyn am safbwynt swyddogol eich llywodraeth ar bwnc. Cofiwch fod yn ffurfiol a chaniatáu digon o amser i dderbyn ateb.
- Os na allwch ddarganfod beth yw safbwynt eich gwlad ar bwnc penodol, ceisiwch ddyfalu'n synhwyrol yn seiliedig ar eich ymchwil gyffredinol.

5. SUT I YSGRIFENNU DATGANIAD O SAFBWYNT

Eich Datganiad o Safbwynt yw cyfle eich dirprwyaeth i siarad heb gael eich herio gan weddill y Cynulliad Cyffredinol neu'r Cyngor Diogelwch. Mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno eich pwyntiau yn glir fel bod pawb yn gwybod eich safbwynt ar y mater, gan ein bod fel arfer ond yn gofyn i ddirprwyaeth siarad ar un o'r ddau bwnc dan ystyriaeth ar y diwrnod.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ymarfer eich anerchiad. Tra byddwch efallai wedi ysgrifennu araith lawn with baratoi, bydd eich cyflwyniad yn well ar y diwrnod os ydych yn defnyddio nodiadau wrth siarad (e.e. pwyntiau bwled). Mae cael nodiadau hefyd yn golygu y gallwch newid eich araith wrth i ddirprwyaethau eraill gyflwyno eu Datganiadau, gan nodi cytundeb neu anghytundeb gyda'u barn. Bydd hyn yn eich rhoi mewn sefyllfa drafod gref.

Os dilynwch y camau hyn dylai fod gennych araith gryno a chrwn.

1. **Disgrifiwch sut y mae'r pwnc hwn yn bwysig i'ch gwlad.**
   Os nad ydych yn teimlo fod y pwnc yn uniongyrchol berthnasol i'ch gwlad, gallwch o leiaf gynnig cymorth ymarferol i'ch cyfeillion yn y gymuned ryngwladol.

2. **Awgrymwch ymatebion posibl i'r sefyllfa.**
   Efallai eich bod eisoes wedi ffurfio'r rhain fel penderfyniad drafft. Gallwch hefyd ychwanegu eich ymateb i awgrymiadau dirprwyaethau eraill.

3. **Hysbyswch y Cynulliad o'r hyn y gall eich gwlad ei gynnig.**
   Gallai hyn fod yn gymorth ariannol, yn wybodaeth arbenigol, yn bolisi sydd eisoes yn gweithio yn eich gwlad chi, neu gefnogaeth foesol yn unig.

4. **Awgrymwch beth y dylai gwledydd eraill ei wneud.**
   Dyma'ch cyfle i ddylanwadu ar ymddygiad aelodau eraill y CU a rhoi sylwadau ar bolisïau sy'n bodoli yr ydych yn eu cefnogi neu yn anghytuno â nhw.

Bydd gan y rhan fwyaf o ddirprwyaethau 2 funud i gyflwyno eu Datganiadau o Safbwynt. Peidiwch â cheisio gwasgu eich holl ymchwil i mewn i'r amser yma; cyfeiriwch at wybodaeth sydd gennych

wrth law, gan adael i ddirprwyaethau eraill ofyn i chi am fanylion pellach yn nes ymlaen yn y gweithrediadau os ydynt eisiau gwneud hynny.

Os yw eich dirprwyaeth yn cyflwyno'r **Anerchiad Agoriadol** yna cewch 5 munud i wneud hynny. Cyn symud ymlaen i gyflwyno barn eich gwlad, dylech roi gorolwg o'r pwnc a sut y mae'n effeithio'r gymuned ryngwladol gyfan.

WRTH GYFLWYNO EICH DATGANIAD, COFIWCH:

- **Siaradwch yn araf ac yn glir - mae pawb eisiau gwybod beth sydd gennych i'w ddweud.**
- **Os nad oes meicroffon ar gael, safwch ar eich traed a siaradwch mor uchel â phosibl.**
- **Byddwch yn llawn mynegiant (neu hyd yn oed yn well, yn angerddol) - dyma'ch cyfle i gyfleu eich barn!**

6. LLUNIO PENDERFYNIAD

Yn ystod y gynhadledd byddwch yn helpu i greu penderfyniad i'w gytuno arno gan y Cenhedloedd Unedig. Caiff hwn ei greu yn ystod trafodaethau dwys rhwng dirprwyaethau yn yr Ystafell Bwyllgor.

Gallwch gynnig un o'r canlynol:

- **Penderfyniad**, sef syniad newydd ar gyfer gweithredu gan y CU. Fel rheol bydd sawl cymal iddo, pob un yn cynnwys pwynt gweithredu perthynol.

- **Gwelliant**. Mae hwn yn cynnig newidiadau i'r penderfyniad drafft sydd dan drafodaeth. Yn aml ni chytunir ar benderfyniad ar ei ffurf wreiddiol a bydd angen un neu ragor o welliannau ysgrifenedig i'w wneud yn dderbyniol.

Dylech ysgrifennu eich penderfyniad neu welliant ar ddalen benodol, sydd yn edrych fel hyn:

PENDERFYNIAD/GWELLIANT YN YMWNEUD Â...

ENW'R DDIRPRWYAETH SY'N RHOI'R PENDERFYNIAD GERBRON:

CYD-NODDWYR:

GWEITHREDU: PENDERFYNIAD/GWELLIANT
(DILEER YN ÔL Y GALW)

……
……
……
……
……
……
……
……
……
……
……
……

Nodwch y pwnc y mae eich penderfyniad/gwelliant yn berthynol iddo, e.e. llafur plant, anghyfiawnderau hawliau dynol gan wlad benodol, y gosb eithaf.

O dan **dirprwyaeth sy'n rhoi gerbron**, ysgrifennwch enw eich gwlad neu gorff anllywodraethol. Y ddirprwyaeth sy'n cynnig fydd y cyntaf i siarad i gefnogi penderfyniad/gwelliant.

O dan **cyd-noddwyr**, rhowch enwau'r gwledydd neu gyrff anllywodraethol sydd yn cefnogi eich penderfyniad/

Ysgrifennwch eich pwynt(iau) gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys eich penderfyniad/gwelliant ar gyfer cefnogaeth y Cynulliad Cyffredinol neu'r Cyngor Diogelwch.

Enghreifftiau:

Yng ngoleuni gweithredu/digwyddiad/sefyllfa ddiweddar yn ymwneud â defnyddio llafur plant yn ..... , cynigiwn fod .....

Neu

Gan nodi record o gam-drin ei phoblogaeth leiafrifol dros nifer o flynyddoedd gan lywodraeth ..... , galwn ar y Cynulliad Cyffredinol i .....

Rhaid trafod pob penderfyniad/gwelliant yn yr Ystafell Bwyllgor a rhaid cael o leiaf ddau cyd-noddwr (gwlad arall yn ei gefnogi). Gall hyn olygu newid geiriad y penderfyniad/gwelliant i fod yn gymwys i wlad arall. Unwaith y bydd gennych o leiaf ddau cyd-noddwr dewch â'r ddalen penderfyniadau yn ôl i'r brif siambr a'i throsglwyddo (trwy'r Ysgrifenyddiaeth) i'r Is-lywydd. Yna bydd yr Is-lywydd yn dewis pa benderfyniad/gwelliant sydd i'w drafod nesaf.

Ar ôl dadl fer, bydd y Llywydd yn galw am bleidlais ar y penderfyniad/gwelliant. Os yw'n cael ei dderbyn daw'n rhan o **benderfyniad terfynol** a bydd pleidleisio arno ar ddiwedd y sesiwn.

Noder:

- Bydd disgwyl i gyd-noddwyr siarad i gefnogi penderfyniad/gwelliant yn ystod y drafodaeth.
- Gall gwledydd sy'n arsylwi a chyrff anllywodraethol gynnig penderfyniad/gwelliant ond rhaid iddynt gael eu cyd-noddi gan wlad sydd yn pleidleisio.

Penderfyniad da

Dyma rai egwyddorion ar gyfer cynnig da.

(1) **Dylai gynnwys rhywfaint o fanylion. Er enghraifft**:

- *At bwy* yr ydych yn cyfeirio neu i bwy yr ydych yn gofyn iddynt wneud rhywbeth (e.e. llywodraeth gwlad neilltuol, y CU cyfan, asiantaeth y CU);
- *Beth* yr ydych yn gofyn iddynt ei wneud (e.e. rhoi arian, sefydlu corff newydd, cyfeirio'r sefyllfa at y Cyngor Diogelwch);
- Manylion eraill (e.e. dyddiad terfynol ar gyfer gweithredu, faint o arian, sawl gwlad, pwy fydd yn gwirio fod gweithredu wedi digwydd).

(2) **Dylai fod yn ymarferol**. Peidiwch ag ysgrifennu penderfyniad yn galw am derfyn ar unwaith i ryfela yn Affrica gyfan, neu i holl blant y byd gael addysg o fewn 6 mis.

(3) **Dylai fod yn ffurfiol ac yn glir**. Yn hytrach nag ysgrifennu 'Ni ddylai Prydain fomio pobl Affganistan', ystyriwch ysgrifennu 'Galw am dynnu milwyr y DU ar unwaith o Affganistan'.

Penderfyniadau datblygedig

Dim ond un neu ddau gymal sydd yn angenrheidiol mewn penderfyniad sylfaenol, wedi'u gwahanu gan bwyntiau bwled. Ond os ydych yn dymuno ysgrifennu un mwy datblygedig, ceisiwch gynnwys y canlynol:

- **rhagymadrodd**, yn esbonio pam fod y cymal wedi'i ysgrifennu. Gall hyn ddefnyddio gwybodaeth o'ch ymchwil, o anerchiadau cynrychiolwyr eraill a hyd yn oed o gynigion a wnaethpwyd gan y CU yn y gorffennol;
- **berfau gweithredol** yn eich cymalau fel 'Yn galw am' neu 'Yn hawlio'. Mae hyn yn helpu dirprwyaethau eraill i ddeall pa mor gryf yr ydych yn teimlo am bwynt neilltuol.

Gweler *Enghreifftiau o benderfyniadau* (adran 7) am esiamplau.

Geiriau/ymadroddion defnyddiol ar gyfer rhagymadrodd:

* Cadarnhau * Wedi dychryn gan * Cymeradwyo * Ymwybodol o * Credu * Gan gadw mewn cof * Hyderus * Ystyried * Argyhoeddedig * Datgan * Hynod o bryderus * Hynod o ymwybodol * Hynod o argyhoeddedig * Wedi ysgwyd yn ddrwg gan * Gresynu'n fawr * Dymuno * Pwysleisio * Disgwyl * Mynegi * Cyflawni * Hollol ymwybodol * Credu'n llwyr * Gresynu ymhellach * Galw'n ôl ymhellach * Arwain gan * Wedi mabwysiadu * Wedi ystyried * Wedi archwilio * Wedi clywed * Cadw mewn cof * Nodi * Arsylwi * Sylweddoli * Ail gadarnhau * Galw'n ôl * Cydnabod * Cyfeirio at * Chwilio * Cymryd i ystyriaeth * Edrych mewn gwerthfawrogiad * Croesawu

Berfau gweithredol ar gyfer cymalau:

* Derbyn * Cadarnhau * Cymeradwyo * Gofyn * Awdurdodi * Galw * Galw ar * Condemnio * Llongyfarch * Cadarnhau * Ystyried * Datgan yn unol â * Gresynu * Tynnu sylw * Enwebu * Pwysleisio * Annog * Cadarnhau * Mynegi ei werthfawrogiad * Mynegi ei obaith * Gwahodd ymhellach * Datgan ymhellach * Argymell ymhellach * Penderfynu ymhellach * Gofyn ymhellach * Wedi penderfynu * Nodi * Datgan * Ail gadarnhau * Argymell * Atgoffa * Difaru * Gofyn * Cadarnhau yn ddifrifol * Awgrymu * Cefnogi * Hyderu * Cymryd nodyn o * Trosglwyddo * Annog

ENGHREIFFTIAU O BENDERFYNIADAU

United Nations A/RES/59/279 (pigion o benderfyniad go iawn)

General Assembly Distr.: General
28 January 2005 **Fifty-ninth session** Agenda item 39 04-49300

Resolution adopted by the General Assembly
[*without reference to a Main Committee (A/59/L.58 and Add.1)*]

59/279. Strengthening emergency relief, rehabilitation, reconstruction and prevention in the aftermath of the Indian Ocean tsunami disaster

The General Assembly,

Expressing sincere condolences and deep sympathy to the victims, their families, the Governments and the peoples of those States that suffered huge losses of life and socio-economic and environmental damage from the unprecedented tsunami disaster that struck the Indian Ocean and Southeast Asian regions on 26 December 2004,

Commending the prompt response, support, generous contributions to and assistance of the international community, by Governments, civil society, the private sector and individuals, in the relief, rehabilitation and reconstruction efforts, which reflect the spirit of international solidarity and cooperation to address the disaster,

Commending also the leading role of the affected States and the role of the United Nations in addressing the disaster, and recognizing the importance of cooperation for effective mobilization, coordination and delivery of international assistance in the emergency relief phase,

Welcoming the Declaration on Action to Strengthen Emergency Relief, Rehabilitation, Reconstruction and Prevention in the Aftermath of the Earthquake and Tsunami Disaster of 26 December 2004, adopted at the special meeting of leaders of the Association of Southeast Asian Nations, held in Jakarta on 6 January 2005 in the aftermath of the earthquake and tsunami, and the pledges made by donor countries and international financial institutions for the affected countries,

Welcoming also the launching of the Indian Ocean earthquake-tsunami 2005 flash appeal by the Secretary-General to respond to the urgent and immediate needs of communities severely affected by the earthquake and tsunami and the outcome of the Ministerial-level Meeting on Humanitarian Assistance to Tsunami-affected Communities, held in Geneva on 11 January 2005.....

.....1. *Expresses its deep concern* at the number and scale of natural disasters and their increasing impact within recent years, which have resulted in a massive loss of life and long-term negative social, economic and environmental consequences for vulnerable societies throughout the world, in particular in developing countries;.....

4. *Encourages* the international community, particularly donor countries, international financial institutions and relevant international organizations, as well as the private sector and civil society, to deliver swiftly on their pledges and to continue to provide the necessary funds and assistance to support the rehabilitation and reconstruction efforts;.....

6. *Requests* the Secretary-General to appoint a special representative in order to, inter alia, sustain the political will of the international community to support medium- and long-term rehabilitation, reconstruction and risk reduction efforts led by the Governments of affected countries at all levels...

Cynnig Cynhadledd Model y CU am Gonfensiwn Genefa 1951 ar Ffoaduriaid

DELEGATION PROPOSING: TURKEY

This Model United Nations General Assembly:

1. **Calls upon** the General Assembly to pledge swift and substantial help, in terms of finance and personnel, to those countries facing the main brunt of any influx of refugees as a result of military intervention in Iraq;

2. **Calls for** the international distribution of refugees, dependent upon the economic means-testing of individual nations. The 'first safe country' principle must only be a temporary measure;

3. **Asks** the more economically developed states of Western Europe and North America to offer financial aid that is commensurate with their means;

4. **Calls upon** all developed countries to pledge the cancelling of debts owed to them by developing countries under pressure from a refugee situation;

5. **Urges** nations to prioritise the needs of refugee children, and to provide help particularly for children and women, to help them access their human rights.

Adopted at the Model United Nations General Assembly at County Hall, Cardiff on 5 March 2003/ Cytunwyd yng Nghynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar 5 Mawrth 2003.

8. Y WASG RYNGWLADOL AC YSGRIFENYDDIAETH Y CU

Ym mhob cynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig, yn ogystal â gwledydd a chyrff anllywodraethol mae'r Wasg Ryngwladol ac Ysgrifenyddiaeth y CU yn cael eu cynrychioli. Darllenwch am yr hyn y maent yn ei wneud, hyd yn oed os nad ydych yn cymryd rhan yn un o'r dirprwyaethau hyn.

Y Wasg Ryngwladol

Cynrychiolir y Wasg Ryngwladol yn y gynhadledd i adrodd ar ddigwyddiadau'r diwrnod.

Os ydych yn cynrychioli'r Wasg, gallwch **gyfweld â** chynrychiolwyr yn yr Ystafell Bwyllgor, **casglu dyfyniadau,** a **rhyng-gipio negeseuon** sy'n cael eu trosglwyddo yn ystod y gynhadledd. Dylai o leiaf un aelod o'r Wasg fod yn bresennol yn Siambr y Cyngor ar bob amser, i ddilyn yr areithiau a'r dadlau sydd yn cymryd lle yno. Dylech ddefnyddio'r ffynonellau o wybodaeth amrywiol hyn i ysgrifennu **Datganiadau'r Wasg Ryngwladol**, a ellir eu gosod i fyny yn y Siambr.

Ar ddiwedd pob sesiwn, gofynnir i'r Wasg Ryngwladol i gyflwyno adroddiad ar lafar o 3 munud i'r dirprwyon, yn crynhoi'r trafodaethau a'r digwyddiadau. Gellir danfon datganiad i'r wasg ysgrifenedig i'ch papurau lleol hefyd wedi'r digwyddiad.

Dylai'r dirprwyaethau eraill cymryd sylw o'r datganiadau hyn yn ystod y ddadl. Mae'n bosibl all newyddion dramatig gael ei ddatgelu, bydd yn newid cyfeiriad y drafodaeth a'r gweithrediadau yr hoffai gwledydd/mudiadau gymryd.

Efallai fod ambell ei ddirprwyaeth am ollwng stori i'r Wasg er mwyn cryfhau ei sefyllfa. All eraill danseilio gwledydd/mudiadau 'gelyniaethus' trwy fwydo gwybodaeth anghywir neu wyrdroi gwybodaeth i'w hochr eu hunain. Gellir gosod y rhain ar y posteri fel bwletinau newyddion hefyd.

Ysgrifenyddiaeth y CU

Mae Ysgrifenyddiaeth y CU yn helpu sicrhau fod pethau yn rhedeg yn llyfn yn y gynhadledd Model y CU, trwy gynorthwyo'r Llywydd, yr Is-lywydd a dirprwyaethau. Dyma rhai o'r pethau maent yn gwneud yn swyddogol:

1. Gweithredu fel 'gwas sifil'

I leihau'r cynnwrf a'r sŵn yn y Siambr, mae cynrychiolwyr sydd am gwrdd â dirprwyaethau eraill yn gorfod ei wneud trwy'r Ysgrifenyddiaeth. Dylent drosglwyddo nodyn i aelod o'r Ysgrifenyddiaeth, i'w ddosbarthu i'r ddirprwyaeth yr hoffent gwrdd â nhw. Yna, gall aelodau o'r ddwy ddirprwyaeth fynd i'r Ystafell Pwyllgor i drafod materion.

Pan ddaw cynrychiolwyr yn ôl i'r Siambr gyda chynnig neu welliant, dylai hwn gael ei drosglwyddo i aelod o'r Ysgrifenyddiaeth, bydd yn ei rhoi i'r Is-lywydd.

Gall y Llywydd a'r Is-lywydd ysgrifennu nodiadau i ddirprwyaethau hefyd yn ystod y gynhadledd, ac y bydd ffurflenni amrywiol yn cael eu dosbarthu i'r cynrychiolwyr yn ystod y dydd hefyd. Yr Ysgrifenyddiaeth bydd yn gyfrifol am ddosbarthu'r rhain.

2. Rhestr y Siaradwyr

Pan mae dirprwy am siarad, dylid dynodi hyn drwy droi enw'r ddirprwyaeth ar ei ben. Dylai aelod o'r Ysgrifenyddiaeth nodi pa ddirprwyaethau sydd am siarad, yn y drefn y codir enwau'r gwledydd. Dylid trosglwyddo'r rhestr hon i'r Llywydd yn rheolaidd.

3. Cynorthwyo i gyfrif y pleidleisiau

Mae'n debyg y gelwir ar yr Ysgrifenyddiaeth i helpu'r Llywydd a'r Is-lywydd i gyfrif y pleidleisiau ar y penderfyniadau neu'r gwelliannau.

Gofynnir i bawb ddefnyddio gwasanaethau'r Ysgrifenyddiaeth mewn ffordd gwrtais ac effeithiol. Ni ddylech ofyn iddynt ddosbarthu nodiadau sydd yn amherthnasol i ddigwyddiadau'r gynhadledd.

9. DYSGU TRWY GYNADLEDDAU MODEL Y CENHEDLOEDD UNEDIG

Yn ogystal â bod yn ffordd ddifyr o ddysgu ynglŷn â'r CU a materion rhyngwladol, gall cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig hefyd fod o gymorth i chi gyda'ch gwaith ysgol/coleg. Dyma restr o'r cysylltiadau rhwng ein cynadleddau a'r Cwricwlwm Cenedlaethol a manylebau pwnc yng Nghymru. Nodwch os gwelwch yn dda nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol.

Y mae hyn yn nodi amcan a ddigonir yn ystod y cyfnod ymchwil
C mae hyn yn nodi amcan a ddigonir yn ystod y gynhadledd ei hun

Fframwaith Sgiliau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, Lefel A, a Bagloriaeth

- Gwrando'n ofalus gan nodi cryfderau a gwendidau safbwyntiau neu linellau rhesymu ac amlygu'r gallu i addasu. Gwneud cyfraniadau ystyrlon i drafodaeth. **Y/C**
- Defnyddio gwahanol strategaethau darllen i ddod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i chrynhoi gan adnabod pwyntiau allweddol yn gywir. **Y**
- Ysgrifennu'n drefnus, gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn rhesymegol ac yn effeithiol. **Y**
- Cyfleu syniadau, emosiynau, a gwybodaeth, yn hyderus ac yn gyson drwy waith mwy cymhleth a manwl mewn ystod o gyfryngau. **Y/C**

Cyfnod Allweddol 4 - pynciau gorfodol

Addysg Bersonol a Chymdeithasol - Sgiliau

- Gwrando'n graff mewn ystod o sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol. **C**
- Gwerthfawrogi safbwyntiau eraill, myfyrio yn eu cylch, a'u gwerthuso'n feirniadol. **C**
- Datrys gwrthdaro gan gyrraedd atebiad lle mae'r ddwy ochr ar eu hennill. **C**
- Ymaddasu i sefyllfaoedd sy'n newid. **C**
- Gweithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill i gynllunio a chwblhau ystod o dasgau. **Y/C**

Addysg Bersonol a Chymdeithasol - Ystod

- Deall sut mae systemau gwleidyddol yn gweithio ar lefel lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, *e.e. yr Undeb Ewropeaidd, y Cenhedloedd Unedig*. **Y/C**
- Deall materion a digwyddiadau cyfoes ar lefel byd-eang, *ee. digartrefedd ac ymfudo rhyngwladol.* **Y/C**

Saesneg

- Adnabod pwyntiau allweddol a dilyn syniadau trwy holi a chyflwyno sylwadau yn dreiddgar er mwyn cael hyd i ffyrdd o drafod i gyrraedd consensws a chyfaddawdu, pan fo'n briodol. **C**
- Gwerthuso eu llafar eu hunain a phobl eraill, gan ystyried cryfderau a gwendidau er mwyn gwella safon eu llafar. **C**
- Cyfeirio'n briodol at destun, croesgyfeirio a defnyddio dyfyniadau i gyfiawnhau barn a chasgliadau. **Y**

Cymraeg

- Gwylio a gwrando'n astud ar wybodaeth gymhleth gan godi'r prif bwyntiau. **C**
- Ymateb yn ymestynnol gan:
    - pwyso a mesur safbwyntiau pobl eraill **Y/C**
    - ystyried y defnydd o dystiolaeth, awgrym a'r hyn sydd ymhlyg yn yr hyn a ddywedir **C**
- Mynegi barn yn effeithiol a hyderus gan ddefnyddio tystiolaeth i adeiladu dadl, amddiffyn safbwynt a/neu berswadio. **Y/C**

Cyfnod Allweddol 4 - pynciau dewisol (CBAC)

Daearyddiaeth

- Datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ym maes dinasyddiaeth. Pwyslais ar gyd-ddibyniaeth ar amrywiol raddfeydd, gan gynnwys y byd-eang, materion cynllunio, safon byw, a'r gydberthynas fregus rhwng pobl a'u hamgylchedd. **Y/C**

Cymdeithaseg

- Yn rhoi cyfle i'r disgyblion/myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth o gyd-ddibyniaeth unigolion, grwpiau, sefydliadau a chymdeithasau. **Y/C**

Lefelau UG/A2 (CBAC)

Daearyddiaeth

- Dwyn ynghyd a chymhwyso gwybodaeth berthnasol, dealltwriaeth a sgiliau ymholi. **Y/C**

Cymdeithaseg

- Dod i ddeall rheolaeth gymdeithasol a dadleuon cymdeithasol arwyddocaol. **Y**
- Cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddamcaniaethau a dadleuon cymdeithasol ar gyfer meysydd amrywiol a phynciau llosg**. Y/C**

Bagloriaeth Cymru - Cymru, Ewrop a'r Byd

Datblygu Byd

- Datblygu gwybodaeth am gysylltiadau rhyngwladol, sefydliadau a systemau llywodraethu o fewn astudiaethau gwleidyddol. **Y/C**

Materion Gwleidyddol

- Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr drafod pam dylai pobl bryderu am wleidyddiaeth a materion gwleidyddol, a sut gall gwledydd helpu i wella cydweithrediad a dealltwriaeth ryngwladol. **C**

Sgiliau

- Darparu ystod eang o brofiadau i ymgeiswyr a fydd yn eu paratoi ar gyfer bywyd yn y byd modern. **C**
- Datblygu sgiliau ehangach megis gwaith tîm, datrys problemau, cyfathrebu, cynllunio a rheoli. **Y/C**
- Datblygu cyflwyniad fel ei fod yn gywir, yn glir ac wedi'i gyflwyno yn gyson, gan ystyried safbwynt pobl eraill. **Y**

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)

Cysyniadau allweddol

Gall cynadleddau Model y CU helpu disgyblion/myfyrwyr i archwilio sawl 'cysyniad allweddol' ym maes ADCDF, gan gynnwys cyd-ddibyniaeth, dinasyddiaeth a stiwardiaeth, newid cynaliadwy a datrys gwrthdaro. **C**

Cyd-ddealltwriaeth

Mae'r *Gyd-ddealltwriaeth i Ysgolion* yn darparu ymagwedd strwythuredig at ADCDF i athrawon ei dilyn mewn gwahanol feysydd cwricwlwm. Gall cynadleddau Model y CU gynorthwyo i gyflawni gofynion megis archwilio Cyfoeth a Thlodi, deall Dewisiadau a Phenderfyniadau, Iechyd, Hunaniaeth a Diwylliant, a datblygu sgiliau meddwl a chyfathrebu. **Y/C**

10. CYNADLEDDAU MODEL Y CENHEDLOEDD UNEDIG: CWESTIYNAU CYFFREDIN

1) Sut mae manteisio orau ar weithgareddau'r diwrnod?
Yn y lle cyntaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud eich gwaith ymchwil, fel bod gennych ddigon o wybodaeth ar flaenau eich bysedd ar y diwrnod. Yn ail, defnyddiwch y cyngor ar sut i ysgrifennu cynnig da; bydd hyn yn eich helpu chi i egluro syniadau eich gwlad ar bapur. Yn drydydd, ac yn bwysicaf oll, mae angen i chi siarad yn groyw ac yn glir ar y diwrnod. Po fwyaf y dywedwch, amlaf oll y bydd pobl yn trafod gyda chi a mwyaf oll y bydd eich gwlad yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

2) Gaf i siarad Cymraeg?
Pan fydd nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cofrestru ar gyfer cynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig, bydd CEWC yn darparu cyfieithu ar y pryd, ac mae croeso i chi siarad yn Gymraeg drwy gydol y dydd. Gweler y ffurflen gofrestru am fwy o wybodaeth.

3) Beth ddylem ni wisgo?
Digwyddiadau ffurfiol yw'r cyfarfodydd hyn, felly rydym yn disgwyl i chi wisgo'n drwsiadus. Gall hyn olygu naill ai gwisg draddodiadol eich gwlad neu wisg ffurfiol fel crys a thei.

4) Beth ddylem ni ddod gyda ni?
Gwelwch y rhestr yn Adran 3 (*Trefn y Diwrnod*).

5) A oes rhaid i ni ddweud yr union bethau y byddai ein gwlad ni yn eu dweud?
Mae cynadleddau Model y CU yn gweithio orau pan fod pob dirprwyaeth yn cyflwyno barn ei chenedl yn weddol gywir. Mae'n amlwg bod rhai gwledydd yn annhebygol iawn o ddweud rhai pethau (e.e. Ciwba yn datgan ei bod o blaid cyfalafiaeth). Serch hynny, efallai y byddwch am benderfynu y bydd eich gwlad ychydig bach yn fwy neu'n llai blaengar ar gyfer yr efelychiad, ac nid yw hyn yn broblem cyn belled â'ch bod yn egluro eich safbwynt.

6) Beth pe bawn i'n anghytuno gyda syniadau'r wlad rwy'n ei chynrychioli?
Mae llwyddiant cynadleddau Model y CU yn dibynnu ar gytuno ar ateb sy'n dderbyniol i'r rhan fwyaf o wledydd – hyd yn oed os yw eu syniadau yn gwbl wahanol i'w gilydd. Mae rhai gwledydd yn cael eu llywodraethu mewn ffordd a fyddai'n eich synnu; ond trwy ymchwilio i'r cefndir i'r syniadau hyn a threulio'r diwrnod yn dadlau o'u plaid, byddwch yn dysgu mwy am y ffordd y mae'n rhaid i arweinwyr byd weithio na phe baech chi'n newid safbwynt eich gwlad yn llwyr. Rhaid cofio na fydd neb yn credu mai eich barn chi yw hon a gallwch drafod eich syniadau personol am y gweithgareddau amser cinio neu pan ddaw'r dydd i ben.

7) Gawn ni newid ein barn yn ystod y gynhadledd?
Nid yw'n broblem os yw dadl dirprwyaeth arall yn eich perswadio chi i newid eich barn am y mater sy'n cael ei drafod. Yn wir, mae'n werth ei annog yn rhan o'r broses drafod. Ond os byddwch yn newid eich safbwynt ar ryw fater mae hi'n bwysig i chi adael i weddill y cyfarfod wybod hynny gan fydd hyn yn effeithio ar bwy fydd yn dymuno trafod â chi.

8) Sut y byddai i'n gwybod gyda phwy i drafod?
Yn ystod yr Araith Agoriadol a Datganiadau o Safbwynt dylech gael ryw syniad am ba wledydd sydd ar yr un trywydd â chithau. Os bydd gwlad yn codi un o'r materion rydych yn poeni yn ei gylch, dechreuwch drafod gyda'i chynrychiolwyr cyn gynted â phosibl. Wrth i'r drafodaeth nesáu at bleidlais, efallai y byddwch am drafod gyda gwledydd sy'n anghytuno, er mwyn eu perswadio nhw i bleidleisio o'ch plaid chi.

9) Sut mae modd sicrhau y caiff fy mhenderfyniad ei drafod?

Mae angen i'ch penderfyniad (neu welliant) fod yn eglur ac yn fanwl ac mae angen sicrhau cefnogaeth iddo os yw am gael ei drafod yn y brif siambr. Dylai benderfyniadau sôn am fathau penodol o weithredu yn hytrach na gwneud datganiadau cyffredinol. Darllenwch Adrannau 6 a 7 yn y pecyn hwn yn ofalus: *Llunio Penderfyniad* ac *Enghreifftiau o benderfyniadau*.

10) Pwy all fy helpu i os oes gennyf broblem cyn y diwrnod?

Os oes gennych broblem yn ystod y cyfnod ymchwil, edrychwch yn y pecyn hwn yn gyntaf. Os nad yw hynny'n helpu, trafodwch gyda'ch cyd-ddisgyblion/myfyrwyr neu athro/athrawes. Os ydych yn dal i fod yn ansicr, cysylltwch â ni ar **cewc@wcia.org.uk** neu 02920 228549.

11) Pwy all fy helpu i ar y diwrnod?

Os cewch chi broblem ar y diwrnod ei hun, nodwch hi ar ddarn o bapur a'i roi i'r Is-lywydd trwy'r Ysgrifenyddiaeth. Bydd ef neu hi yn eich cynghori chi ynghylch unrhyw broblemau sydd gennych chi.

12) Sut bydd hyn yn helpu gyda fy astudiaethau?

Yn ogystal â bod yn ddiwrnod i'w gofio mae cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig CEWC yn clymu i mewn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol a hefyd gymwysterau fel TGAU, lefel A a Bagloriaeth Cymru. Gwelwch *Dysgu trwy gynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig* am ragor o fanylion.

13) Es i ddim i gyfarfod briffio CEWC cyn y gynhadledd – gaf i gymryd rhan serch hynny?

Mae cyfarfodydd briffio CEWC yn cynnig cyflwyniad i'r CU a'r materion sy'n cael eu trafod, ynghyd â disgrifiad mwy manwl o ddigwyddiadau'r dydd. Gallwch gymryd rhan yn y gynhadledd hyd yn oed os nad ydych wedi bod i un o'r cyfarfodydd hyn - dim ond i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n darllen cynnwys y pecyn hwn ac yn gwneud eich gwaith ymchwil, ac yn cysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â threfn y dydd.

14) Fydd cinio'n cael ei ddarparu ar ddiwrnod y gynhadledd?

Cyllideb gymharol fechan sydd gennym ar gyfer cynadleddau Model y CU, felly oni chlywch chi fel arall, dewch â brechdanau os gwelwch yn dda neu byddwch yn barod i dalu am eich cinio ar y dydd.

15) Gawn ni gadw'r fflagiau?

Dyma'r cwestiwn a holir amlaf yn ein holl ddigwyddiadau Model CU. Yn anffodus, na yw'r ateb. Rydym yn cynnal o leiaf chwe digwyddiad bob blwyddyn, a byddai'n rhy ddrud i brynu fflagiau newydd ar gyfer pob un!

11. GEIRFA

Araith agoriadol — Araith 5 munud o hyd a wneir gan un wlad ar ddechrau **sesiwn**. Mae'n cyflwyno'r mater i'w drafod a chamau gweithredu posibl.

Corff anllywodraethol (NGO) — Asiantaeth fel Oxfam neu WaterAid yw corff anllywodraethol neu NGO (non-governmental organisation). Caiff cyrff fel y rhain eu gwahodd weithiau i gynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig i gymryd rhan mewn dadleuon sy'n berthnasol i'w gwaith.

Cyd-gefnogydd — **Dirprwyaeth** sy'n cytuno i gefnogi **penderfyniad**.

Cymal — Un o bwyntiau gweithredu **penderfyniad**.

Cynigydd — Y wlad/corff sy'n llunio **penderfyniad**.

Cynrychiolydd — Un aelod mewn **dirprwyaeth**.

Datganiad o safbwynt — Anerchiad gan ddirprwyaeth sy'n datgan ei safbwynt ar y pwnc dan sylw.

Dirprwyaeth — Grŵp o dri sy'n **cynrychioli** gwlad, **corff anllywodraethol**, **y Wasg Ryngwladol** neu'r **Ysgrifenyddiaeth**.

Feto — Pan fo'r Cyngor Diogelwch yn pleidleisio, pleidlais yn erbyn gan unrhyw un o bum aelod parhaol y Cyngor yw feto. Mae hyn yn golygu y bydd penderfyniad neu welliant yn methu, ni waeth faint y gefnogaeth iddo gan yr aelodau eraill sy'n pleidleisio.

Gwelliant — Newid a wneir i **benderfyniad** i'w wneud yn fwy derbyniol i drwch y gwledydd sy'n pleidleisio.

Gwlad â phleidlais — Yn y Cynulliad Cyffredinol, caiff holl aelod wladwriaethau'r CU bleidleisio. Yn y Cyngor Diogelwch, dim ond y 15 gwlad sy'n aelodau gaiff bleidleisio, ac fel arfer gelwir enwau'r gwledydd hynny cyn pleidleisio.

Gwlad sy'n arsylwi — Gwlad heb bleidlais. Yn y Cynulliad Cyffredinol, gwlad nad yw'n cael ei hadnabod fel gwladwriaeth sofran fyddai hon, fel Palestina neu Orllewin Sahara. Yn y Cyngor Diogelwch, arsylwi y gwna pob gwlad ar wahân i'r 15 aelod sy'n cael pleidleisio.

Llywydd ac Is-lywydd — Mewn cynadleddau Model y CU, y llywydd sy'n cadeirio'r ddadl yn **Siambr y Cyngor**, yn galw ar ddirprwyaethau i annerch, ac yn galw am bleidleisio ar adegau priodol. Mae'r Is-lywydd yn cynorthwyo trwy argymell penderfyniadau i'w trafod, darllen y penderfyniadau hynny i'r cyfarfod, a rhoi cymorth i'r cynrychiolwyr yn gyffredinol.

Penderfyniad	Syniad newydd ar gyfer gweithredu gan y CU yw hwn. Fel arfer bydd ganddo nifer o **gymalau**.
Penderfyniad terfynol	Penderfyniad y ceir pleidlais arno ar ddiwedd pob **sesiwn**. Mae'n cynnwys yr holl bwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod y sesiwn honno.
Rhaglith	Mae'r rhaglith i **benderfyniad** yn egluro pam y cafodd ei lunio. Am ragor o wybodaeth, gweler *Penderfyniadau datblygedig* yn Adran 6.
Sesiwn	Rhaid cyrraedd penderfyniad ar bwnc penodol o fewn cyfnod o'r enw sesiwn. Bydd naill ai un neu ddwy sesiwn mewn cynhadledd Model y CU.
Siambr y Cyngor	Yr ystafell fawr mewn cynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig, a ddefnyddir ar gyfer annerch y gynhadledd a dadlau o blaid neu yn erbyn penderfyniadau.
Y Cyngor Diogelwch	Y corff yn y CU sy'n ymdrin â heddwch a materion diogelwch rhyngwladol. Gweler *Y Cenhedloedd Unedig: y Cefndir* am ragor o wybodaeth.
Y Cynulliad Cyffredinol	Corff democrataidd y CU, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r 192 o aelod wladwriaethau. Mewn cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig, bydd rhwng 20 a 30 o wledydd yn bresennol fel arfer.
Ysgrifenyddiaeth	Mewn cynadleddau Model y CU, bydd aelodau o'r Ysgrifenyddiaeth yn cludo negeseuon rhwng dirprwyaethau, yn cynorthwyo'r Llywydd i gadw rhestr o siaradwyr yn ôl eu trefn, ac yn rhoi cymorth o fath arall yn ôl y gofyn.
Ystafell Bwyllgor	Yr ystafell fach mewn cynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig, at ddefnydd dirprwyaethau sydd am drafod â'i gilydd.

GWEFANNAU DEFNYDDIOL

Mae'r gwefannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar faterion o bwys i waith y Cenhedloedd Unedig. Yn eu plith mae cyrff rhynglywodraethol, asiantau'r CU, a mudiadau anllywodraethol (NGOs).

Mudiadau Rhyngwladol

europa.eu	European Union
www.acpsec.org	African, Caribbean and Pacific Group of States
www.africa-union.org/root/au/index/index.htm	African Union
www.arableagueonline.org	Arab League of States
www.aseansec.org	Association of Southeast Asian Nations
www.thecommonwealth.org	Commonwealth
www.comunidadandina.org	Andean Community
www.g77.org	Group of 77 developing countries
www.nato.int	North Atlantic Treaty Organisation
www.oas.org	Organization of American States
www.chathamhouse.org.uk	Royal Institute for International Affairs (Chatham House)
www.spc.int	Secretariat of the Pacific Community
www.un.org	United Nations
www.una-uk.org	United Nations Association UK
www.unsystem.org	Links to all UN agencies' websites
www.wcia.org.uk	Welsh Centre for International Affairs

Ynni a'r Amgylchedd

www.foe.co.uk	Friends of the Earth
www.forumforthefuture.org.uk	Sustainable development charity
www.globalwitness.org	Links between resources, conflict and corruption
www.greenpeace.org.uk	Greenpeace
www.iaea.org	International Atomic Energy Agency
www.iea.org	International Energy Agency
www.iied.org	International Institute for Environment and Development
www.ipcc.ch	Intergovernmental Panel on Climate Change
www.tourismconcern.org.uk	Tourism Concern
www.wateraid.org.uk	WaterAid
www.wwf.org	Worldwide Fund for Nature

Hawliau Dynol a Hawliau Plant

www.amnesty.org.uk	Amnesty International
www.antislavery.org	Anti-Slavery International
www.ecpat.org.uk	End Child Prostitution
www.globalexchange.org	Global Exchange
www.hrea.org	Human Rights Education Associates
www.hrw.org	Human Rights Watch
www.liberty-human-rights.org.uk	Civil liberties watchdog
www.minorityrights.org	Minority Rights Group International
www.womankind.org.uk	Women's development and human rights
www.worldaudit.org	Reports on democracy, rights etc.

Asiantau Cymorth Rhyngwladol

www.actionaid.org.uk	ActionAid
www.cafod.org.uk	Catholic Fund for Overseas Development
www.christian-aid.org.uk	Christian Aid
www.msf.org	Médecins sans Frontières
www.oxfam.org.uk	Oxfam
www.savethechildren.org.uk	Save the Children

Heddwch a Gwrthdaro

www.acronym.org.uk	Acronym Institute (conflict issues)
www.caat.org.uk	Campaign Against the Arms Trade
www.cartercenter.org	Peace programmes
www.child-soldiers.org	Coalition to Stop the Use of Child Soldiers
www.cnduk.org	Campaign for Nuclear Disarmament
www.incore.ulst.ac.uk	Initiative on Conflict Resolution and Ethnicity
www.iwa.org	Institute of World Affairs
www.landmineaction.org	Landmine Action
www.nato.int	North Atlantic Treaty Organization

Tlodi ac Economeg Fyd-eang

www.fairtrade.org.uk	Fairtrade Foundation
www.iie.com	Institute for International Economics
www.imf.org	International Monetary Fund
www.waronwant.org	War On Want
www.wdm.org.uk	World Development Movement
www.weforum.org	World Economic Forum
www.worldbank.org	World Bank
www.wto.org	World Trade Organization

Ffoaduriaid

www.ecre.org	European Council on Refugees and Exiles
www.refintl.org	Refugees International
www.refugeecouncil.org.uk	Refugee Council
www.unhcr.org	The UN refugee agency

Ffynnonellau Newyddion

news.bbc.co.uk	BBC News (recommended)
news.google.com	Search thousands of sources
scicentral.com	Science news
www.economist.com	Political and economic news
www.indymedia.org	Independent news
www.newint.com	News on development issues
www.newstrawler.com	News search site

Eraill

www.africacentre.org.uk	Raises awareness about Africa
www.aidschannel.org	Resources on HIV/AIDS
www.campaignforeducation.org	Global Campaign for Education
www.cgfi.org	Center for Global Food Issues
www.consumersinternational.org	Consumers International
www.ei-ie.org	Education International
www.globalissues.org	Information about many issues
www.helpage.org	Global network of organisations working for older people
www.homeless-international.org	Homeless International
www.oneworld.net	Gateway for many world issues
www.peopleandplanet.org	Student campaigns on poverty, human rights, environment
www.populationconcern.org.uk	Population Concern
www.sgr.org.uk	Scientists for Global Responsibility
www.survival-international.org	Supports tribal peoples
www.twnside.org.sg	Issues affecting developing countries/Third World net